

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Talylychau nos Fawrth, 5 Rhagfyr 2017, am 7.30pm.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd), John Williams, Nigel Lovatt, Janine Roberts, Pauline George, Rhys Williams, y Cyngorydd Sir Joseph Davies, a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: Sarah Walters ac Eifion Roberts.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Ni nodwyd unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.

Datganiad o gyfrif, fel yr oedd ar 28 Tachwedd 2017, £8,685.27. Gwiriwyd gan Janine Roberts.

Materion sy'n codi.

Toiledau Cludadwy. Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Mr Daniel Cooper, Pennaeth Dros Dro Ysgol Gynradd Talylychau, yn rhoi gwybod am eu penderfyniad i beidio â chymryd meddiant o'r Toiledau yn y Cae Chwarae, a hynny'n dilyn cyfarfod y Llywodraethwyr. Cytunwyd y byddai hysbyseb yn cael ei rhoi yn Swyddfa'r Post, gwefan Talylychau ac ar y ddau hysbysfwrdd: Mae gan Gyngor Cymuned Talylychau Floc Toiledau Cludadwy (Dynion a Menywod). Ar gael am ddim i gartref da. Rhaid ei gasglu. Dylai'r sawl sydd â diddordeb gysylltu â'r Clerc.

Toiledau Cyhoeddus. Cafwyd ymateb gan gwmni yswiriant Zurich yn nodi y byddai premiwm ychwanegol gwerth £56 yn ddyladwy pe byddai'n rhoi dyfynbris, i fod yn weithredol ar unwaith, ar y toiledau cyhoeddus, a hynny am werth ailadeiladu o £90,000. Nodwyd hefyd y byddem yn wynebu premiwm blynyddol ychwanegol o tua £170. Cafwyd a thrafodwyd y dyfynbrisiau canlynol: Agri Advisor £500 a TAW. Carreg Law £450 a TAW. Hugh Williams Son & Co £200 a TAW. Roedd y dyfynbrisiau'n amrywio o ran yr hyn a oedd yn gynwysedig, ond, yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddem yn derbyn y dyfynbris gan Hugh Williams Son & Co. Byddai'r Clerc yn trefnu apwyntiad gyda Hugh Williams Son & Co, gan wirio a yw'r ffi yn cynnwys adborth. Byddai angen gwirio a allai'r Cyngor Cymuned dorri'n rhydd o'r Les ar unrhyw adeg. Y Clerc i roi gwybod i Rhys Davies, Cyngor Sir Caerfyrddin, fod y Les gyda'r cyfreithwyr. Y Cae Chwarae a'r Cae Cymunedol. Y Clerc i gysylltu â Gareth Howells, Cyngor Sir Caerfyrddin, am ymateb i neges e-bost a anfonwyd ato.

Diolchodd y Cadeirydd i Janine Roberts am drefnu i gau'r gât wrth fynedfa'r cae.

Diffibrilwyr. Roedd pob un o'r tri diffibrilwyr wedi cael eu gosod. Roedd anfoneb wedi dod i law gan elusen Cariad. Tri diffibrilwr Zoll AED Plus a Phecyn Gofal Llawn £3,000. Tri chabinet AED Allanol £1,200. Cytunwyd y byddai cyfanswm yr anfoneb, sef £4,200, yn cael ei dalu i elusen Cariad. Byddai'r Clerc yn cysylltu ag elusen Cariad i gynnig dyddiadau hyfforddi. Roedd sticeri Cronfa'r Loteri wedi cael eu gosod ar bob un o'r cabinetau.

Yswiriant Zurich. Am nad oedd unrhyw gostau ychwanegol i yswirio'r diffibrilwyr tan y byddai angen adnewyddu'r polisi, cytunwyd i'w hyswirio. Nodwyd y byddai angen gwirio'r diffibrilwyr yn rheolaidd.

Mynwent yr Eglwys. Cafodd y drafodaeth am folltio'r fainc fetel wrth y wal ei gohirio tan y cyfarfod nesaf. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Adran Priffyrdd am ymateb i neges e-bost a anfonwyd.

Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, £30.20.

Trywydd, am gyfieithu cofnodion mis Mehefin, Gorffennaf a Medi, £115.39.

Dosbarthwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Llythyr gan Lywodraeth Cymru. Swm Priodol o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Terfyn Gwariant Adran 137 ar gyfer 2018-19 yn cynyddu o £7.57 i £7.86, fesul etholwr.

Llythyr gan Apêl Tiny Lives, Elusen Noah's Ark. I'w drafod ar ddiwedd y flwyddyn. Newyddion Diogelwch Cymunedol Sir Gâr.

Llythyr gan Grŵp Cydweithredol GIG Cymru ynghylch Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys. Cafwyd ynghlwm lyfrynnau o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Ymateb i'r Ymgynghoriad.

Y Clerc i roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin fod angen glanhau'r llwybr wrth fynedfa cae'r llyn o gyfeiriad Llangwm.

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.15pm.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 9 Ionawr 2018, am 7.30pm.